# Pwyllgor Adolygu Gweithredol

## 12 Mehefin 2024

**Yn bresennol:** Dr RM Plummer (Cadeirydd)
Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Morgan, a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol**: Claire Bates (Pennaeth Twristiaeth Adfywiol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Sara Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu), Graham Peake (Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant), Rachel Perkins (Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr y Gorllewin), Libby Taylor (Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant) a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

[Ymunodd Mr GA Jones â'r cyfarfod adeg y drafodaeth ar adroddiad 03/24, yr Amcan Llesiant: Archwiliad Dwfn / Hunanasesiad: Cysylltiad. Ymunodd Mrs J James â'r cyfarfod adeg y drafodaeth ar adroddiad 04/24, Adolygiad o'r Prosiect y 1,000 Diwrnod Cyntaf]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12:50pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd SL Hancock MBE, y Cynghorydd R Jordan a'r Cynghorydd M Wiggins.

**2. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd eu Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, Ymddiriedolwr Plantlife a Chyfarwyddwr Gwelliannau Bioamrywiaeth Plantlife Cyf. Fodd bynnag arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Mawrth 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd C Williams, a eiliwyd gan y Cynghorydd P Morgan, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Mawrth 2024.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nododd yr Aelodau y log gweithredu.

**Nodwyd.**

**5 . Amcan Llesiant: Archwilio Dwfn / Hunanasesiad: Cysylltiad**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant a gyflwynodd adroddiad Archwiliad Dwfn a Hunanasesiad ar yr amcan llesiant Cysylltiad. Amlinellodd yr adroddiad bod yr amcan Cysylltiad yn canolbwyntio ar greu Parc oedd yn wasanaeth iechyd naturiol oedd yn cynorthwyo pobl i fod yn iachach, yn hapusach ac yn fwy cysylltiedig â'r dirwedd, byd natur a threftadaeth.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y canlyniadau ar gyfer yr amcan hwn, asesiad o’r camau ymlaen, nifer o astudiaethau achos perthnasol, manylion am yr heriau a’r cyfleoedd, manylion yr hyn a gyfrannwyd at y canlyniadau trawsbynciol, ac asesiad cyffredinol ynghyd â’r camau nesaf. Eglurodd y Swyddog bod yr adroddiad yn dilyn fformat newydd, a gofynnwyd am adborth yr Aelodau.

Roedd yr adroddiad yn amlygu’r heriau a wynebir gan y Swyddogion yn y maes hwn o waith oedd yn cynnwys y dirwedd ariannu oedd wedi dod yn fwy cystadleuol yn y blynyddoedd diweddar. Eglurodd y Prif Weithredwr bod nifer o'r prosiectau a amlygwyd yn yr adroddiad yn cael eu hariannu gan grantiau, a bod posibilrwydd y byddai'n ofynnol i'r Awdurdod flaenoriaethu prosiectau yn y dyfodol pe bai'r dirwedd ariannu yn parhau i fod yn fwy cystadleuol.

Canmolodd yr Aelodau y Swyddogion am eu gwaith yn cyflawni prosiectau oedd wedi cyfrannu at amcan Cysylltiad yr Awdurdod ac oedd wedi bod o fudd i gymunedau'r Parc. Trafodwyd pwysigrwydd cydweithio rhwng adrannau a sefydliadau.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:15am – 11:25am]

**6. Adolygu’r Prosiect y 1,000 Diwrnod Cyntaf**

Croesawodd y Cadeirydd yr Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant a gyflwynodd adolygiad o’r Prosiect y 1,000 Diwrnod Cyntaf a’r modd yr oedd gweithgaredd presennol ac arfaethedig yn y maes hwn yn cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion plant a'r rhai sy'n ymwneud â darparu gofal ar gyfer y grŵp oedran hwn. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y prosiect, manylion y gweithgaredd a gyflawnwyd, cymariaethau, statws ariannu, yr heriau, yr adnoddau sydd ar gael, adborth cadarnhaol a'r camau nesaf.

Dywedodd y Swyddog mai un o'r prif heriau i'r prosiect oedd cyfathrebu'n effeithiol â chyfranogwyr y prosiect gan nad oedd Swyddogion yn gallu defnyddio WhatsApp at ddibenion diogelu data. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu bod Tîm Rheoli'r Awdurdod yn ystyried yr her hon i ddod o hyd i ddatrysiad.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch gweithdrefnau'r tîm ar gyfer diogelu a chaniatâd tynnu lluniau. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog y ddwy weithdrefn, a thynnodd sylw at y lefel sylweddol o brofiad o fewn y tîm. Ychwanegwyd bod cysylltiad y tîm â’r lleoliadau Dechrau'n Deg o gymorth o ran materion diogelu.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y cymunedau oedd yn cael budd o'r prosiect, ac eglurodd y Swyddog er bod yr Awdurdod yn anelu at ymgysylltu â'r holl gymunedau, roedd cysylltiadau yn aml yn cael eu creu drwy’r lleoliadau blynyddoedd cynnar. Roedd y Swyddog yn cydnabod, er gwaethaf llwyddiant y prosiect, bod dal angen gwaith i wneud y cynllun yn fwy hygyrch.

Holodd Aelod a oedd cyfranogwyr y prosiect yn ymwybodol mai'r Awdurdod oedd hwyluswyr y prosiect. Atebodd y Swyddog bod rhaglen y prosiect yn cynnwys awgrymiadau profiad oedd yn annog cyfranogwyr i ymweld â'r Parc Cenedlaethol, fodd bynnag roedd angen gwaith pellach i hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol yn fwy cyffredinol. Nododd y Swyddog yr awgrym hwn.

**Nodwyd.**

**7. Adolygu Prosiect Gorllewin Cymru ‘Cerdded er Lles’**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant adroddiad ar weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau prosiect Gorllewin Cymru Cerdded er Lles ar ôl ei gwblhau fis Ionawr 2024.

Dywedwyd bod y prosiect yn ceisio datblygu a chyflwyno rhaglen o gyfleoedd cerdded er budd iechyd a lles yn seiliedig ar y gymuned, yn gynaliadwy, yn cofleidio model presgripsiynu cymdeithasol, ac yn cysylltu gofal iechyd sylfaenol â chymunedau ar lefel leol. Roedd yr adroddiad yn nodi bod y prosiect yn ceisio grymuso unigolion i ddod yn fwy egnïol yn gorfforol gyda ffocws ar y rhai sy'n byw bywydau eisteddog neu gymharol eisteddog. Roedd yr adroddiad yn rhoi cefndir pellach i'r prosiect gydag ystadegau perthnasol a manylion ariannu.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffyrdd y gellid datblygu ac ehangu'r prosiect ymhellach, a nododd y Swyddog awgrymiadau'r Aelodau. Cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn bwriadu ail-fapio ac ail-hyrwyddo cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol i'r cyhoedd.

Dywedwyd bod y prosiect wedi'i werthuso'n allanol gan Ymgynghorwyr Emma George, a gofynnodd Aelod am i'r adroddiad gwerthuso llawn gael ei ddosbarthu i'r Aelodau.

**Nodwyd.**

**8. Adroddiad ar y Perfformiad Amcanion Llesiant**

Croesawodd y Cadeirydd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth a gyflwynodd adroddiad ar y Perfformiad Amcanion Llesiant oedd yn manylu ar y camau ymlaen a gymerwyd yn erbyn y dangosyddion/ prosiectau/rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2024 (diwedd y flwyddyn ariannol). Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ystadegau chwarter 4 ar rai o'r mesurau.

Roedd yr adroddiad perfformiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar o Amcanion Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27.

Nododd Aelod bod cyfran uchel o fesurau â sgôr gwyrdd yn y categorïau Coch Ambr Gwyrdd, a gofynnodd a oedd targedau'r Awdurdod yn ddigon uchelgeisiol. Eglurodd y Swyddog bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o fesurau newydd ac yn cymryd agwedd mwy hirdymor oedd yn golygu nifer fawr o raddfeydd gwyrdd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â thargedau'r Awdurdod, yr heriau wrth fesur effaith peth o waith yr Awdurdod a'r angen i gael cydbwysedd rhwng targedau cyraeddadwy ac uchelgeisiol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod nifer o'r targedau wedi'u gosod yn allanol o ganlyniad i geisiadau grant cysylltiedig.

Nododd Aelod y derminoleg gymhleth oedd yn yr adroddiad ac awgrymodd y dylid defnyddio penawdau cliriach. Mewn ymateb, eglurodd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth ei bod yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth ac Archwilio i'r Awdurdod ddilyn fframwaith penodol, ond nodwyd yr adborth.

Gofynnodd y Cadeirydd am ragor o wybodaeth ynghylch y Prosiect Mynediad i Gastell Caeriw oedd yn yr adroddiad. Cytunodd y Swyddog i ofyn am ragor o fanylion gan y Swyddog perthnasol gan gynnwys trosolwg o'r prosiect a'r camau nesaf.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024 heb eu diwygio. |